

Canllaw Ymgeisio am Grant Diwrnod Windrush 2022

Yn dilyn proses dendro gystadleuol, mae Race Council Cymru wedi ennill contract gan Lywodraeth Cymru i reoli dyraniad arian ar gyfer Diwrnod Windrush 2022. Isod ceir manylion i lywio eich proses ymgeisio.

Diwrnod sy'n anrhydeddu ac yn dathlu cyfraniadau 'Cenedlaeth Windrush' yw Diwrnod Windrush; dyma elwir y bobl a gyrhaeddodd y Deyrnas Unedig rhwng 1948 a 1971 o wledydd y Caribî a'r Gymanwlad, a atebodd yr alwad i helpu i lenwi bylchau ar y farchnad lafur ac ailgodi'r Deyrnas Unedig ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

(Mae'r enw 'Windrush' yn cyfeirio at y llong MV Empire Windrush, a laniodd yn nociau Tilbury ar 22 Mehefin 1948, yn cludo gweithwyr o Jamaica, Trinidad a Tobago ac ynysoedd eraill i'r Deyrnas Unedig).

Yr 22^{ain} o Fehefin 2022 fydd y 5^{ed} Diwrnod Cenedlaethol Windrush i gael ei ddathlu yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu nifer o ddigwyddiadau ledled Cymru dros y 5 mlynedd ddiwethaf ac mae'n awyddus i sicrhau bod amrywiaeth eang o grwpiau a mudiadau'n gallu cael eu hariannu i gynnal digwyddiadau i'w cymunedau eleni. Eleni, mae Race Council Cymru wedi ennill contract gan Lywodraeth Cymru i reoli'r dyraniad arian ar gyfer Diwrnod Windrush 2022.

Nodau

Pwrpas y cyllid hwn yw galluogi digwyddiadau, gweithgareddau a phrosiectau i gael eu cynnal a fydd yn addysgu ac yn dathlu Diwrnod Windrush 2022.

Amcanion

- Darparu arian i alluogi amrywiaeth mor eang â phosibl o fudiadau a grwpiau i gynnal gweithgareddau i ddathlu Diwrnod Windrush 2022
- Darparu arian i alluogi amrywiaeth mor eang â phosibl o fudiadau a grwpiau i ymwneud â gweithgareddau i ddathlu Diwrnod Windrush 2022

Pwy gaiff wneud cais?

Mae Race Council Cymru yn galw am geisiadau gan grwpiau wedi'u cyfansoddi a mudiadau, sydd:

- Wedi'u lleoli yng Nghymru ac yn gweithio yng Nghymru
- Yn gallu dangos tystiolaeth o'u capasiti i gynllunio, trefnu a chynnal digwyddiadau / gweithgareddau a phrosiectau a darparu adroddiad ar ôl cwblhau, yn cynnwys lluniau, fideos drwy WeTransfer a gwerthusiad cynulleidfa ac yn y blaen.
- Gallu dangos ymgysylltu gyda'u cymunedau lleol, cyfranogwyr neu gynulleidfaoedd
- Gallu dangos tystiolaeth o'u dealltwriaeth am Windrush a sut byddant yn mynd ati i rannu gwybodaeth allweddol.

- Yn gallu dangos tystiolaeth bod eu polisiau llywodraethu, diogelu, cynhwysiant a chydarddoldeb ar waith ac yn cael eu cadw atynt.

Canllawiau Ariannu

- Caiff grwpiau wedi'u cyfansoddi a mudiadau wneud cais am arian rhwng £100 – £4,999
- **Yr ystod a gynghorir ar gyfer cyllideb mewn ceisiadau yw £2,500.00** neu is ond fe ystyrir ceisiadau eithriadol sydd yn fwy na hyn i fyny at uchafswm o £4999
- Mae'r arian hwn ar gyfer eitemau refeniw yn unig – staff prosiect, contractwyr, lluniaeth, deunyddiau, teithio ac ati
- **NI chaniateir gwariant cyfalaf**

Meini Prawf Ariannu

Rhaid i geisiadau ddangos tystiolaeth o sut mae'r digwyddiad / gweithgaredd / prosiect yn alinio â chanllawiau Windrush Llywodraeth Cymru, sef:

- Codi ymwybyddiaeth o Ddiwrnod Windrush
- Hyrwyddo negeseuon cadarnhaol am Ddiwrnod Windrush
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o gyfraniad hanesyddol, economaidd a diwylliannol cenhedlaeth Windrush i Gymru
- Darparu addysg neu hyfforddiant o amgylch Windrush

Yn ychwanegol, rhaid i bob digwyddiad, gweithgaredd neu brosiect a ariennir roi cydnabyddiaeth i Lywodraeth Cymru (yn cynnwys logos) fel ariannwr.

Y Broses

- Rhaid anfon yr holl geisiadau wedi'u cwblhau at
- Rhif ffôn cyswllt Race Council Cymru (RCC): 03302290995
- Caiff ceisiadau eu hasesu gan banel annibynnol a fydd yn penderfynu.
- Mae'n bosibl y cynhelir cyfweiliadau ar-lein, pe byddid angen mwy o wybodaeth i ategu'r wybodaeth a gyflwynwyd ar y ffurflen gais.
- Bydd llythyr cynnig dyfarniad yn cael ei anfon at ymgeiswyr llawn drwy ebost.

Amserlen Ariannu

- Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn 50% o'r arian pan dderbynnir cynnig dyfarniad wedi'i lofnodi ac unwaith y byddant wedi cyflwyno unrhyw wybodaeth a thystiolaeth ychwanegol ofynnol.
- Bydd y 50% sy'n weddill yn cael ei gyflwyno pan asesir yr adroddiad / gwerthusiad terfynol ar ddiwedd y prosiect.

Adrodd a gwerthuso

- Bydd yr adroddiad cwblhad yn cael ei gyflwyno gan Race Council Cymru i bob mudiad a ariannwyd a rhaid ei gwblhau erbyn y dyddiad cau, sef 30 Medi 2022.
- Rhaid i'r adroddiad cwblhad ddangos tystiolaeth o'r gwaith o gynnal ac ymgysylltu, a rhaid i luniau a gwerthusiadau gan y gynulleidfa/cyfranogwyr ynghyd â data cydraddoldeb gefnogi'r adroddiad hwn.

Meini Prawf Gwerthuso a Dyfarnu Contract

Bydd y contract yn cael ei ddyfarnu i'r dyfynbris mwyaf manteisiol yn economaidd yn nhermau gwerth am arian yn seiliedig ar y meini prawf canlynol, a restrir yn nhrefn pwysigrwydd yn cynnwys y pwysoliad sy'n berthnasol i bob maen prawf.

Sylwer y dylai'r dyfynbris a gyflwynwch gynnwys yr holl gostau a ragwelir ar gyfer ymgymryd â'r digwyddiad, yn cynnwys Teithio a Chynhالياeth. Gweler canllawiau CThEM (www.gov.uk) [wrth gyfrifo costau Teithio a Chynhالياeth](#).

Meini Prawf Gwerthuso	Pwysoliad
1. Ansawdd	75
2. Cost	25

Adnoddau a Sefyllfa Ariannol

Dymuna Race Council Cymru sicrhau fod ymgeiswyr yn meddu ar yr adnoddau a'r sefyllfa ariannol i fodloni eu hymrwymadau drwy gydol cyfnod y contract hwn. Gallai hyn gynnwys (pan fo'n briodol) ystyried lefel eich ymrwymadau gwaith presennol a'r effaith bosibl ar adnoddau y byddai dyfarnu'r contract yn ei gael.

Ymholiadau i windrush@racecouncilcymru.org.uk